# Cinio Nadolig Clwb Cinio
# dydd Gwener

yn Ystafelloedd Te Dragonfly, Cerrigydrudion eto eleni

**12:30 ar ddydd Gwener, Rhagfyr y 15fed**



Does dim ond lle i hyn a hyn, felly cofiwch gadw lle cyn gynted â phosibl. Byddwn yn dosbarthu'r bwydlenni unwaith y byddwn ni'n eu derbyn er mwyn ichi archebu eich pryd ymlaen llaw.
(Dim ond ychydig o lefydd ar ôl)

Os hoffech ymuno â ni, cysylltwch ag Nen; 01690 750 205
Ebost; bobandnen@btinternet.com

# GRŴP GWNÏO

**Byddwn yn cyfarfod bob yn ail ddydd Llun, yn y Pafiliwn, o 10.00 tan hanner dydd.**



Crosio, gweu, tatio, cwiltio, gwehyddu, tapestri, croesbwytho. Os yw hi'n grefft sy'n defnyddio nodwydd, rydym wedi rhoi cynnig arni mwy na heb!



Ydych chi'n awyddus i gychwyn arni gyda chrefft ond yn ansicr sut i fwrw iddi, yna byddem yn fwy na bodlon eich cynghori. Oes gennych chi'ch bryd ar gwiltio ond mae'r syniad o fynd ati yn eich brawychu? Byddem wrth ein bodd eich helpu.

(Os ydych chi'n mwynhau crefft arall sydd ddim yn defnyddio nodwydd ac yn dymuno ymuno â ni, mae croeso mawr ichi yma cyhyd ag nad yw'n gwneud llanast. Dim weldio.)

# Y CLWB DYDD LLUN.

**Mae'r Clwb dydd Llun** yn cwrdd gan amlaf ar bedwerydd ddydd Llun y mis drwy gydol y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd yn y Pafiliwn ac yn cychwyn am 2 o'r gloch fel arfer. Eleni bu inni fwynhau llu o siaradwyr gwadd difyr a gwybodus yn ymdrin ag ystod eang o bynciau. Bu inni hefyd fwynhau taith dydd i Ynys Môn, gan gynnwys taith ar gwch ar hyd y Fenai ac o amgylch Ynys Seiriol.

Mae croeso mawr i unrhyw un ymuno â ni i wneud ffrindiau a sgwrsio dros baned.